# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2023

> Yn ddiweddar, mae Defra wedi rhyddhau ffigurau trwybwn lladd-dai'r DU ar gyfer mis Mehefin a ddatgelodd fod trwybwn gwartheg a defaid ar gyfer hanner cyntaf 2023 yn uwch na lefelau'r flwyddyn flaenorol, tra bod pwysau carcas yn effeithio ar gynhyrchiant cig coch. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.
>
> Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes




## GWARTHEG

Yn ystod hanner cyntaf (H1) 2023, *cyfanswm* trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd **1.4 miliwn pen** yn ôl y ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan Defra. O'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt, mae hyn 1% (neu 17,900 pen) yn uwch, ond yn debyg i'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod 6 mis cyfatebol.

Ar y cyfan, cofnododd trwybwn *gwartheg dethol* ostyngiad o 1% o flwyddyn i flwyddyn ar 1.0 pen, tra bod pwysau carcasau ar gyfartaledd wedi bod yn ysgafnach yn ystod H1. Mae trwybwn heffrod uchel wedi parhau o 2022 ac i 2023. Mae trwybwn heffrod ar gyfer H1 i fyny 3% ar y flwyddyn i gyfanswm o 409,200 pen, tra bod teirw ifanc i lawr 1% a bustych yn gymharol sefydlog ar y flwyddyn. Gan edrych yn agosach ar gyfran y categorïau gwartheg dethol hyn; mae teirw ifanc wedi aros yn gyson ac yn cyfrif am oddeutu 9% o'r gwartheg dethol sy'n cael eu lladd, ond mae heffrod wedi bod yn cynyddu eu cyfran ac yn cyfrif am 40% o'r rhai a laddwyd yn ystod H1 (o'i gymharu â 38% yn 2021). Mae buches gwartheg y DU yn dirywio ac felly ni fydd trwybwn heffrod uchel yn gwneud fawr ddim i wyrdroi hyn.

Cofnododd nifer y *gwartheg llawn-dwf* newid mwy nodedig, gyda chynnydd o 2% yn uwch na H1 2022, sef 297,400 pen. Mae prisiau ffermydd gwartheg i'w difa yn parhau i fod ar duedd uwch na'r





cyfartaleddau hanesyddol, tra bod pwysau chwyddiant ond wedi lleddfu ar gyfer rhai costau mewnbwn, ac felly efallai y bydd rhai cynhyrchwyr yn dal i geisio gwerthu anifeiliaid hŷn, llai cynhyrchiol. Gan ystyried pwysau trwybwn a phwysau carcas; roedd cyfanswm y cig eidion a chig llo yn y DU ar gyfer H1 2023 yn 450,600 tunnell - sy'n debyg i lefelau blwyddyn ynghynt.

## DEFAID

Mae'r nifer o *ŵyn dethol* a laddwyd yn y DU yn ystod H1 2023 wedi bod yn gryf hyd yn hyn, gyda mis Mawrth yn cofnodi'r lefel uchaf o drwybwn misol ar 1.2 miliwn pen. Mae hyn o ganlyniad i gario mwy o Ŵyn Hen Dymor drosodd i 2023 yn dilyn haf mwy sych a chostau porthiant uwch y llynedd, a wnaeth ohirio ŵyn rhag dod ymlaen. Er bod Ŵyn Tymor Newydd ar y cyfan yn arafach i ddod ymlaen i ddechrau, roedd y galw ar gyfer y Pasg a Ramadan yn annog anifeiliaid i ddod ymlaen, gyda mis Mehefin yn cofnodi ymhell dros 1.0 miliwn pen. O ganlyniad, mae dros 5.9 miliwn o ŵyn wedi cael eu prosesu mewn lladd-dai yn y DU eleni – cynnydd o 4% (neu 251,400 pen) ar lefelau 2022, a 6% yn uwch na'r cyfartaledd tymor hwy o 5 mlynedd. Mae pwysau cyfartalog cyffredinol y carcas ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn 20.1kg - sy'n 0.5kg yn ysgafnach na'r lefelau blwyddyn ynghynt.

Roedd trwybwn y *mamogiaid difa a'r hyrddod* yn ystod H1 hefyd yn uwch na'r lefelau blwyddyn gynt – cynnydd o 4% ar 823,000 pen, gyda phwysau cyfartalog carcasau hefyd yn ysgafnach, sef 26.4kg (-1.9kg ar y flwyddyn). Gan edrych ar *gyfanswm* trwybwn y defaid a'r ŵyn hyd yn hyn yn 2023, mae 281,000 pen ychwanegol wedi'u prosesu mewn lladd-dai yn y DU, gan ddod â'r cyfanswm i **6.8 miliwn pen**.





O'u cymharu â blynyddoedd blaenorol; mae'r lefelau presennol yn uchel a thua 6% o flaen y cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyfatebol. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ysgafnach y carcasau ar gyfer y ddau gategori o ddefaid, mae cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod H1 2023 ond tua 1% yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt, sef 141,400 tunnell.

## MOCH

*Cyfanswm* trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU yn ystod H1 2023 oedd **5.1 miliwn pen**. Mae hyn 11% (neu 619,300 pen) yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2022. O'i gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd (2018-2022) ar gyfer H1 yn hanesyddol, mae'r lefel trwybwn gyfredol ryw 8% yn is. Rhagwelwyd cyflenwad tynn ar gyfer 2023, gyda gostyngiad nodedig mewn cynhyrchiant o'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt, oherwydd heriau yn y diwydiant a arweiniodd at grebachiad o fewn y fuches fridio yn y DU yn ddiweddar. Mae costau cynhyrchu ar gyfer cynhyrchwyr moch yn parhau i fod yn her er gwaethaf y ffaith bod pwysau chwyddiant yn lleihau ar gyfer rhai costau mewnbwn.

Roedd nifer y *moch heb fagu* a laddwyd yn y cyfnod yn sefyll ar 5.0 miliwn pen - gostyngiad o 11% ar lefelau blwyddyn ynghynt, tra bod trwybwn *hychod a baedd llawn dwf* i lawr 12% o'i gymharu â'r flwyddyn i gyfanswm o 121,000 pen. Mae'r gostyngiad mewn trwybwn moch yn ystod




H1 wedi arwain at ostyngiad o 13% yng nghyfanswm cynhyrchiant cig moch yn ystod y cyfnod i 457,200 tunnell (70,000 tunnell yn llai na H1 2022).

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 15 Gorffennaf

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **258.7c/kg**. Roedd hyn:

- -3.9c ar yr wythnos flaenorol,
- +14.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 62.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 196.5c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **467.4c/kg**. Roedd hyn:

- -5.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 27.1c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 465.5c/kg (-4.2c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 461.7c/kg (-4.5c), a gwartheg difa ar 359.5c/kg (-6.0c).

### Trwybwn – Mehefin 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 226,800 pen – cynnydd o 4% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 170,800 pen - i fyny 4% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych +3%, heffrod +5%, a theirw ifanc +1%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 344.8kg (-4.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 49,200 pen - cynnydd o 6% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Mehefin '23
75,100 tunnell
+3% b-a-f

## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 15 Gorffennaf

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **266.4c/kg**. Roedd hyn:

- -28.5c ar yr wythnos flaenorol,
- -45.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 37.7c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 228.7c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£80.60/pen**. Roedd hyn:

- -£5.50 ar yr wythnos flaenorol,
- £7.90 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 631.0c/kg (+13.9c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Mehefin 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.2 miliwn pen – cynnydd o 21% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 21% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 19.6kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 144,400 pen – cynnydd o 20% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant cig defaid yn y DU
Mehefin '23
24,900 tunnell
+20% b-a-f

## MOCH


### Prisiau – wythnos yn dod i ben 8 Gorffennaf

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **222.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.1c ar yr wythnos flaenorol,
- + 28.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 56.0c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 166.7c/kg).

### Trwybwn – Mehefin 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 833,400 pen – gostyngiad o 11% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 813,700 pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.3kg (-0.3kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,800 pen – i lawr 14% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant porc y DU
Mehefin '23
74,700 tunnell
-11% b-a-f